
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 No. 1581

**Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a
Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a
Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(2) Daw'r Rhan hon a Rhan 2 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Daw Rhannau 3 a 4 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.